

Y cynnig i symud Ysgol Dolgarrog i safle newydd yn ystod gwaith adeiladu'r Ysgol Ardal Trefriw a Chaerhun newydd

Ymatebion gan rieni a staff i'r ymgynghoriad:

'Byddai'r tarfu ar fywyd yr ysgol yn ystod y gwaith adeiladu yn annerbyniol ac nid oes dim all liniaru hyn. Gan y bydd yr holl waith adeiladu yn digwydd yma yn Ysgol Dolgarrog, byddai ein disgyblion o dan anfantais annheg gyda'u blynyddoedd cynradd yn cael eu difetha gydag anghyfleustra gwaith adeiladu ar raddfa fawr. Mae disgyblion blynyddoedd 2 a 6 yn wynebu arholiadau caled, gyda'r canlyniadau yn cael eu hanfon i Lywodraeth Cymru. Ni fyddai'n dderbyniol i'w marciau ddiodef o ganlyniad i darfu uniongyrchol neu anuniongyrchol 58/95 i'w hysgol. Byddent yn colli llawer o'r adnoddau ardderchog sydd gennym yma yn yr ysgol.'

'Bydd problemau gyda llwch a baw. Mae llawer o ddisgyblion yn cerdded i'r ysgol a byddant yn cerdded trwy lwch a mwd i gyrraedd yr ysgol. Bydd hyn yn ei dro yn cael ei gario i mewn i'r ysgol ac yn gwneud gwaith ychwanegol i'r athrawon a'r staff glanhau.'

'Bydd cynnydd yn y drafnidiaeth drom i ac o'r safle a fydd yn ei gwneud yn fwy peryglus i rieni a disgyblion ddod i'r ysgol. Bydd lle i staff a rhieni barcio yn cael ei golli oherwydd y mynediad fydd ei angen i'r safle.'

'Bydd cyfleusterau'n cael eu colli yn yr adeilad sy'n bodoli. Bydd yr adeilad yn cael ei godi ar y man chwarae wyneb caled presennol. Er y gallai fod yn bosibl defnyddio'r man glaswelltog i'r gogledd i'r adeilad presennol yn ystod yr haf ni fydd hyn yn bosibl yn ystod y gaeaf neu dywydd tamp yn yr haf.'

'Rydym yn nodi nad yw adeiladu'r ysgol newydd yng Nghyffordd Llandudno wedi mynd rhagddo fel y bwriadwyd ac rydym yn pryderu pe bai arafu ar safle ysgol sy'n bodoli y byddai cynnydd yn y tarfu i staff a disgyblion ar y safle hwnnw.'